
BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CYLCHLYTHYR

RHIFYN 5, HAF 2024

## NEGES GAN REOLWR Y BWRDD



Croeso i rifyn Haf 2024 Cylchlythyr Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fe welwch fod llawer wedi digwydd ar draws y rhanbarth ers cyhoeddi ein rhifyn diwethaf, gan gynnwys nifer o fentrau newydd, straeon newyddion da, datblygiad sawl ymgyrch poster, hyfforddiant a gweithdai a mwy. Mae'r rhifyn hwn hefyd yn amlygu diweddariadau ar feysydd pwysig o bolisïau, ymarfer a hyfforddiant diogelu, yn ogystal â newyddion ac arferion da gan dimau a gwasanaethau o'n hasiantaethau partner ar draws y rhanbarth.

Rydym bob amser yn awyddus i hyrwyddo straeon ac enghreifftiau o’r gwaith rhagorol sy’n digwydd ar draws y rhanbarth, felly cofiwch barhau i anfon unrhyw newyddion neu wybodaeth yr hoffech i ni dynnu sylw atynt i cysur@pembrokeshire.gov.uk

Julie Breckon, Rheolwr Diogelu Rhanbarthol Strategol Plant ac Oedolion mewn Perygl

## YN Y RHIFYN HWN


**RHANBARTHOL**

⇒ Adolygiadau newydd Ymarfer Plant ac Oedolion a gyhoeddwyd

⇒ Straeon newyddion da gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

⇒ Ymgyrch gwrth-fepio “Llawn blas - ond beth arall?” Powys

⇒ Briff saith munud newydd: Defnyddio map y corff ym maes diogelu

⇒ Ymgyrch Poster Cydsyniad Sir Gaerfyrddin

⇒ Yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Panel Cynghori Rhanbarthol a Chyfathrebu)

**REGIONAL**

⇒ Adolygiad Thematig o Adolygiadau Lladdiad Domestig

**CENEDLAETHOL**

⇒ Yr wybodaeth ddiweddaraf am Weithdrefnau Diogelu Cymru

⇒ Adnoddau ymarferol – y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad

⇒ Adrodd am bryderon ynghylch caethwasiaeth fodern yn y sector gofal cymdeithasol

⇒ Modiwl hyfforddi newydd i godi ymwybyddiaeth o hunanladdiad

⇒ Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant – Gweithdai “Bydd yn Glust, Bydd yn Llais”

# YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WEITHDREFNAU DIOGELU CYMRU




Mae hi bellach yn bedair blynedd ers lansio a rhoi Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar waith, ac maent yn gyfarwydd i bob sefydliad ac asiantaeth yng Nghymru ac yn cael eu defnyddio ganddynt. Ers ei gylchlythyr diwethaf yn 2023 mae Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi datblygu adran adnoddau o fewn y gweithdrefnau lle mae dolenni a gwybodaeth ddefnyddiol bellach yn cael eu storio. Mae hyn yn cynnwys dolenni i Fframwaith a Safonau Hyfforddi, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru a deunyddiau / pecyn cymorth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ar rannu gwybodaeth i ddiogelu plant.

**Wrthi'n cael eu datblygu**

⇒ **Gweithdrefnau Diogelu Cymru Adran 5**: Mae adolygiad a diwygiadau wedi'u gwneud i Adran 5 o'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â **honiadau yn erbyn ymarferwyr / pobl sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth**. Mae'r adolygiad hwn wedi'i lywio gan adborth a gafwyd gan Swyddogion Dynodedig yr Awdurdod Lleol a Swyddogion Diogelu Dynodedig, a bydd yn destun ymgynghoriad yn fuan drwy'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

⇒ **Argymhellion cenedlaethol – Adolygiadau o ymarfer**: Yn dilyn yr argymhellion a ddeilliodd o adolygiad ymarfer plant diweddar, cafodd y gweithdrefnau eu hadolygu a'u diwygio er mwyn cryfhau a chefnogi cyfranogiad y rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni yn y prosesau diogelu plant. Mae'r newidiadau'n ystyried y rhieni dibreswyl hynny y mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o'r prosesau (pan fo'n ddiogel gwneud hynny).

⇒ **Canllawiau ymarfer**: Mae diwygiadau terfynol yn y broses o gael eu gwneud i'r Canllaw Ymarfer Cam-drin Plant yn Rhywiol, a bydd y canllaw newydd hwn yn cael ei gynnwys yn y gweithdrefnau pan fyddant wedi cael eu cwblhau. Mae adolygiad o'r Canllawiau Ymarfer Diogelu Plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant a'r Canllawiau Ymarfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael eu cynnal, ac mae'n debygol y caiff pecyn cymorth ac adnoddau atodol eu cynnwys yn y dyfodol i gefnogi'r maes ymarfer hwn.. Cydnabyddir nad oes unrhyw ganllawiau ymarfer cyfredol i gefnogi ymarfer diogelu oedolion, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi rhestr o ganllawiau ymarfer arfaethedig i'w datblygu yn 2024/25.

Os hoffech gysylltu â thîm prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru gydag unrhyw ymholiadau, cwestiynau, neu broblemau gallwch gysylltu â nhw drwy anfon neges e-bost i info@diogelu.cymru

# ADOLYGIADAU CYHOEDDEDIG O YMARFER PLANT AC OEDOLION



Prif ddiben yr adolygiadau o ymarfer yw nodi dysgu amlasiantaethol a gwneud argymhellion i wella arferion diogelu. Gweler isod adolygiadau ymarfer a gyhoeddwyd yn ddiweddar yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Maent ar gael ar ein gwefan:

**Adolygiad o Ymarfer Hybrid, yn cynnwys CYSUR 4 2020 a CWMPAS 2 2020.**

⇒ Mae adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant a'r briff saith munud ar gael yma: https://cysur.cymru/adolygiadau-ymarfer-plant-cprs/cysur-4-2020-adroddiad-adolygiad-ymarfer-plant-estynedig/

⇒ Mae adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Oedolion a'r briff saith munud ar gael yma: https://cysur.cymru/adolygiadau-ymarfer-oedolion-aprs/cwmpas-2-2020-adolygiad-ymarfer-oedolion-estynedig/

**CYSUR 3 2021 Adolygiad Ymarfer Plant Cryno**

⇒ Mae adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant a'r briff saith munud ar gael yma: https://cysur.cymru/adolygiadau-ymarfer-plant-cprs/cysur-3-2021-adolygiad-ymarfer-plant/

# Straeon newyddion da gan y nyrs glinigol arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



Ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, mae Rosie Cox a Helen Wear wedi cymryd rhan weithredol yn y rhaglen ailgartrefu ar gyfer y plant ym Mhowys sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain. Maent wedi nodi'r angen i'w cefnogi gyda chofrestriad meddyg teulu, sgriniad gwaed rhagarweiniol, a'r imiwneiddiadau sydd eu hangen arnynt. Mae gwaith papur wedi'i ddatblygu ganddynt i gefnogi gofalwyr a meddygon teulu gyda'r gofynion a bennir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

Maent hefyd yn datblygu pecyn i helpu'r plant hyn sy'n agored i niwed i wneud dewisiadau ffordd iach o fyw, cynllunio/cyllidebu prydau bwyd a'u helpu i gysgu.

Mae llawer o'r plant lleol ym Mhowys sydd ar eu pen eu hunain yn teithio mewn grwpiau gyda'r nos ac yn cysgu yn ystod y dydd. Pan fyddant yn cyrraedd y DU nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu setlo, ac yn aml maent yn dioddef o hunllefau. Mae'r rhai sydd wedi treulio amser mewn canolfannau cadw neu wersylloedd dros dro hefyd yn profi cwsg aflonydd. Maent yn ei chael yn anodd cwympo i gysgu ac aros ynghwsg yn y nos, deffro yn y bore ac aros yn effro yn ystod y dydd. Mae hyn yn cyfrannu at ddiffyg canolbwyntio a diffyg sefydlogrwydd emosiynol.

Nododd Rosie a Helen elusen plant yn Llundain sy'n darparu pecynnau cwsg i'r plant ac, ar y cyd â'r gwasanaethau plant, casglwyd 40 o becynnau i'w dosbarthu ym Mhowys.

Mae pecyn cwsg yn gwdyn sy'n cynnwys: crys nos, golau nos y gellir ei blygio i mewn, bag lafant, cerdyn 'Cysga'n Dawel' a grëwyd yn arbennig, mwgwd llygad, plygiau clust, hancesi papur, a phêl straen.

Adborth gan Weithiwr Cymdeithasol Gwasanaethau Plant

"Bydd y pecynnau cwsg hyn yn werthfawr yn y broses o sicrhau bod y plant sydd ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn cael eu cefnogi, gan roi'r hanfodion sydd eu hangen arnynt ynghyd ag ymdeimlad o werth ac urddas."




Pecyn cwsg i'w ddosbarthu

# YMGYRCH GWRTH-FEPIO "LLAWN BLAS – OND BETH ARALL?" POWYS

Mae ffigurau diweddar gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn awgrymu y bu cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio e-sigaréts / fêps ar hyn o bryd. Yn y DU, mae cyfran y bobl ifanc 11-17 oed sy'n fepio ar hyn o bryd wedi cynyddu o 4% yn 2020 i 7% yn 2022.

Mae ymgyrch gwrth-fepio wedi cael ei lansio ar y cyd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys. Bydd yr ymgyrch i'w gweld ar draws cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys ac adeiladau gweithredol, ysgolion uwchradd a safleoedd bysiau ym Mhowys.

Mae nifer o bosteri llawn gwybodaeth wedi cael eu creu fel rhan o'r ymgyrch hon, sydd ar gael i'w hargraffu, eu lawrlwytho a'u rhannu i godi ymwybyddiaeth o fepio yn ehangach.  Mae llyfrgell ddogfennau yn cynnwys asedau digidol gan gynnwys delweddau sydd wedi'u fformatio ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol (X/Twitter, Facebook, Instagram) a delweddau wedi'u hanimeiddio sy'n addas i'w postio fel Facebook Stories ac Instagram Reels.

Mae dogfen Word ar y brif dudalen yn cynnwys postiadau a awgrymir ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Mae yna hefyd bosteri sy'n addas ar gyfer eu hargraffu ar ffurf A4 ac A3. Ym Mhowys, mae ganddynt hefyd amrywiaeth o asedau ffisegol ar gael, gan gynnwys baneri, cardiau post a phosteri. I ofyn am asedau ffisegol, anfonwch neges e-bost i healthprotection@powys.gov.uk

Gellir lawrlwytho asedau cyfathrebu o'u llyfrgell asedau yma.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch neu am gymorth i roi'r gorau i fepio, ewch i: Fepio – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (dangosir isod).



Are you under 18 and vaping?

Click here to access more information and support.



Are you over 18 and vaping?

Click here to access more information and support.



Is your child or a young person that you are working with vaping?

Click here to access more information and support.



Guidance on vaping/e-cigarettes for schools and colleges in Powys

Don't Smoke? Don't start vaping!

# YMGYRCH GWRTH-FEPIO "LLAWN BLAS – OND BETH ARALL?" POWYS



# SESIYNAU BRIFFIO SAITH MUNUD NEWYDD: DEFNYDDIO MAPIAU CORFF YM MAES DIOGELU

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi datblygu offeryn defnyddiol ar ffurf sesiwn friffio saith munud i gynorthwyo ymarferwyr i reoli gofal ar gyfer croen a all fod wedi'i niweidio gan bwysau a/neu leithder, neu lle gall cleisiau neu anafiadau fod yn bresennol. Yn aml gall hyn fod yn nodwedd o bobl hŷn sydd angen gofal mewn ysbyty a gofal arbenigol neu ddarpariaeth nyrsio.

Mae map corff yn offeryn a ddefnyddir i gofnodi niwed gweledol i gyfanrwydd croen. Dylai'r map corff adlewyrchu'n gywir fath, golwg a lleoliad unrhyw niwed gweladwy i gyfanrwydd croen ar adeg derbyn claf; yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty / tra'n derbyn gofal neu ar adeg ei ryddhau o gyfleuster. Dylai'r map corff fynd gyda'r unigolyn wrth iddo symud ymlaen drwy'r system iechyd a gofal.

Yn ogystal â hwyluso cyfathrebu effeithiol, mae'r map corff yn helpu ymarferwyr i wneud penderfyniadau a gwerthuso tystiolaeth pan godir pryder sy'n ymwneud â diogelu. Gellir eu defnyddio fel dyddlyfr i gofnodi'r holl fanylion perthnasol. Gellir rhannu mapiau corff â gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol / amlasiantaethol fel rhan hanfodol o'r gwaith o rannu gwybodaeth am unigolion. Mae mapiau corff yn rhoi tystiolaeth o fanylion ar adeg benodol. Gellir defnyddio mapiau corff hefyd i lywio ymholiadau diogelu, fforymau amlasiantaethol ac adolygiadau ymarfer oedolion / plant.

## Defnyddio mapiau corff ym maes diogelu




### 1 Beth yw Map Corff?

Offeryn a ddefnyddir i gofnodi niwed gweledol i gyfanrwydd croen yw map corff.

Dylai'r map corff adlewyrchu'n gywir y math, y cyflwyniad a lleoliad unrhyw niwed gweladwy i gyfanrwydd croen ar adeg derbyn claf, yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty/ tra'n derbyn gofal neu adeg rhyddhau o gyfleuster.

Dylai'r map corff fynd gyda'r unigolyn wrth iddo symud ymlaen drwy'r system iechyd a gofal.

### 2 Pwysigrwydd mapiau corff ym maes diogelu

Bu nifer o adroddiadau diogelu yn codi pryderon yn dilyn rhyddhau o'r ysbyty o ran niwed pwyso a/neu niwed lleithder, cleisio neu anafiadau nad oedd y rhai a gymerodd ofal yn ymwybodol ohonynt, na'r sail resymegol ar eu cyfer.

Yn ogystal â galluogi cyfathrebu effeithiol, mae'r map corff yn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i wneud penderfyniadau ac i werthuso tystiolaeth pan godir pryder ynghylch diogelu.

### 3 Manteision defnyddio map corff

Gellir eu defnyddio fel dyddlyfr i gofnodi'r holl fanylion perthnasol. Gellir rhannu mapiau corff â gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol/amlasiantaethol fel rhan hanfodol o'r gwaith o rannu gwybodaeth am unigolion. Mae mapiau corff yn rhoi tystiolaeth o fanylion ar adeg benodol.

Gellir defnyddio mapiau corff i lywio ymholiadau diogelu, fforymau amlasiantaethol ac adolygiadau ymarfer oedolion/plant.

### 4 Enghreifftiau o ddefnydd

- Niwed pwyso a niwed lleithder
- Marciau o ddyfeisiau a/neu weithdrefnau ymledol
- Cwympiadau
- Marciau yn dilyn arferion cyfyngol – Ymosodiad
- Cleisio a achosir gan feddyginiaeth
- Achosion claf i glaf
- Hunan-niwed
- Amrywiol

### 5 Ymateb a Chofnodi

Dylid trafod unrhyw niwed anesboniadwy i gyfanrwydd y croen gyda'r unigolyn, a'r teulu/gofalwyr.

Mae'r map corff yn atodiad i gadw cofnodion da ac nid yw'n disodli'r angen i ddogfennu yn y cofnodion cywir ac uwchgyfeirio fel y bo'n briodol.

Yn ogystal â chofnodion nyrsio a meddygol, gall cofnodion priodol gynnwys adrodd am ddigwyddiad ar Datix, cynlluniau gofal clwyfau, bwndeli gofal, pasbort briw pwyso/niwed lleithder, dogfennau trosglwyddo neu ryddhau ac ati.

### 6 Adrodd i'r tîm diogelu

Rhaid llunio adroddiad diogelu lle mae achos rhesymol i amau bod y niwed i gyfanrwydd y croen o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod a bod yr unigolyn yn blentyn, neu'n oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth ac yn methu amddiffyn ei hun rhag cam-drin neu esgeulustod.

Os yw ymarferydd yn ansicr a oes angen adrodd am ddigwyddiad i'r tîm diogelu, defnyddiwch yr offeryn Sgrinio Diogelu i arwain y broses gwneud penderfyniadau a dangos tystiolaeth. Llwythwch yr offeryn sgrinio i'r DATIX perthnasol i sicrhau cof sefydliadol.

### 7 Cyfrifoldebau Proffesiynol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar holl staff y bwrdd iechyd i adrodd i'r awdurdod lleol lle yr amheuir, neu pan wyddys, bod oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae mapiau'r corff yn rhan hanfodol o adroddiad diogelu – y map corff sydd wedi'i gynnwys yn y Ffurflen Adroddiad Amlasiantaethol ynghyd ag unrhyw rai sydd wedi'u cwblhau mewn dogfennau clinigol.

Mae gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd gyfrifoldebau o dan eu codau ymddygiad proffesiynol priodol i godi pryderon pan fo risg neu niwed.

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru – Ionawr 2024. Addaswyd o gyhoeddiad Defnyddio Mapiau Corff wrth Ddiogelu, Briff 7 Munud Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

# ADOLYGIAD THEMATIG O LADDIADAU DOMESTIG

Yn dilyn yr adolygiad thematig a gwblhawyd o adolygiadau lladdiad domestig ar draws y rhanbarth, mae grŵp strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi datblygu'r ddogfen friffio hon i gasglu a rhannu dysgu.

Roedd yr adolygiad yn ddadansoddiad o 15 o adolygiadau o laddiad domestig a gynhaliwyd gan y partneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru gyda'r nod o wneud y canlynol:

- Gwella dealltwriaeth o'r themâu a dysgu a ddeilliodd o'r adolygiadau lladdiad domestig yn y rhanbarth.
- Llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth a chynllun cyflawni Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol.

## Key findings of the Thematic Review

### Sex

**Victims:**
**13 female** victims.
**2 male** victims.

**Perpetrators:**
Of the **13** homicide cases:
**13** perpetrators were **male.**
**1** was **female.**

### Age

19↓ YOUNGEST 87↑ OLDEST

**Victims:**
The youngest victim was **19 years of age** and the oldest **87 years of age.**

**7 victims over the age of 65 years** - this equates to **47%** of the total victims compared to **over 65's** accounting for **21%** of the Welsh population (Census 2021)

**2** of the victims were **over the age of 80 years** and both were murdered by family members.

**Perpetrators:**
Age of perpetrators ranged from **19 to 81 years.**

Perpetrators between the ages of **25-40 years** and **41-55 years** accounted for the largest number of cases (4 each).

**2** perpetrators **over the age of 80 years.**

### Sexuality

The **victim in one case identified as a lesbian** – importance of recording this information to improve understanding of the dynamics of domestic abuse within same sex relationships but also to improve agency/system responses.

### Ethnicity

Where recorded, all victims and perpetrators identified as **White Welsh/British.**

### Children

There were **8 children** linked to 5 of the Reviews.

### Cause of death

Stabbing accounted for **33% of the deaths** in Mid and West Wales.

Blunt Force Trauma and Strangulation/Suffocation accounted for **three deaths respectively**.

The **3 deaths** from suffocation/strangulation were all **females over the age of 65 years**.

Home remains the most dangerous place for **women** with **93% of deaths happening in their own homes**.

[1] Home Office DHR guidance para 18 states that *where a victim took their own life and the circumstances give rise to concern for example it emerges that there was coercive and controlling behaviour in the relationship a review should be undertaken even if a suspect if not charged with an offence or they are tried and acquitted.*

[2] In respect of the 2 male victims, one was a familial homicide and the other a suicide.

[3] In one familial homicide there were 2 perpetrators – 1 male and 1 female.

# ADOLYGIAD THEMATIG O LADDIADAU DOMESTIG (PARHAD)

## Relationship to the victim

**The perpetrator was the victims' :**
Intimate partner in **9 cases (69%)**

Son/Daughter in **3 cases.**

Grandson in **1 case.**

Brother in **1 case.**

## Criminal Justice Outcomes*

**Perpetrators were:**
Guilty of murder in **7 cases.**

Guilty of manslaughter in **3 cases.**

Acquitted in **1 case.**

*No criminal justice outcomes in **4 cases** – suicides and homicide/suicides.

## Victim Vulnerabilities (known in 9 of the cases)

In a **third of the cases** the victim had been a previous victim of domestic abuse.

Anxiety/Depression was a factor in **4 of the cases.**

Self-harm/suicidal ideation a factor in **2 of the cases.**

## Agency contact with subjects of the Reviews

Health (Primary and Secondary) in **8 of the cases.**

Mental Health Services in **5 of the cases.**

Children's Services in **5 of the cases.**

Police in **3 of the cases.**

Specialist VAWDASV Services in **1 of the cases.**

## Factors identified relating to Perpetrators

**(known for 11 of the cases)**

Mental Health a factor in **64% of cases.**

Alcohol/Substance Use also a factor in **64% of cases.**

A history of domestic abuse in **54% of cases** including coercive and controlling behaviours, threats towards and assaults on parents/partners and attitudes/behaviours towards women.

## Themes (from 9 of the reviews)

Coercive and Controlling Behaviours present in **77% of DHRs.**

Older People's experiences of domestic abuse – **53% of DHRs** involving **victims over the age of 55 years.**

Familial homicide in **4 cases** – **3 cases** of Matricide.

The critical role of Health in identifying and responding to domestic abuse.

Children as victims of domestic abuse.

Significance of Care Dynamics.

Importance of community based responses to VAW-DASV.

The impact of Covid 19.

Family and Friends – importance of information and pathways to raise concerns.

Relocation to Mid and West Wales in **44% of DHRs**


Suicide – importance of identifying where domestic abuse may be a factor and implementing DHR notification procedures.

## Risk and the Multi Agency Risk Assessment Conference (MARAC)

In the **13 cases** where this information is known – **none of the victims** had been discussed at MARAC.

**Only one of the victims** had been assessed as High Risk and this had been in relation to a previous partner (it is not documented whether this was case was discussed at MARAC).

# ADNODDAU YMARFEROL I HELPU GWEITHWYR PROFFESIYNOL I DDEALL YN WELL Y CYSYLLTIAD RHWNG CAM-DRIN DOMESTIG A HUNANLADDIAD




Fis Mawrth diwethaf, lansiwyd 'Learning Legacies: An Analysis of Domestic Homicide Reviews in Cases of Domestic Abuse Suicide', cydweithrediad rhwng AAFDA (Advocacy After Fatal Domestic Abuse) a Phrifysgol Warwick.

O'r cychwyn cyntaf, roedd y tîm wedi ymrwymo i sicrhau bod gan yr adroddiad gyrhaeddiad eang a bod yr hyn a ddysgwyd ynddo yn gallu cefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes cam-drin domestig, adolygiadau o laddiadau domestig ac atal hunanladdiad. Maent bellach yn falch iawn o lansio cyfres o adnoddau ymarferol i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall yn well y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad, ac i wella'r ymateb i hunanladdiad yn sgil cam-drin domestig.

Mae'r adroddiad, y briffiau polisi, pecyn cymorth ar gyfer ymarferwyr ac animeiddiad byr ar gael yma: [Learning Legacies: An Analysis of Domestic Homicide Reviews in Cases of Domestic Abuse Suicide – AAFDA]

# ADRODD AM BRYDERON YNGHYLCH CAETHWASIAETH FODERN YN Y SECTOR GOFAL CYMDEITHASOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio gwefan ar nodi ac adrodd am bryderon ynghylch caethwasiaeth fodern yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r dudalen newydd hon yn ymdrin â'r canlynol:

⇒ Beth yw caethwasiaeth fodern?

⇒ Beth yw arwyddion caethwasiaeth fodern?

⇒ Camddealltwriaethau a chamdybiaethau cyffredin

⇒ Beth allwch chi ei wneud os ydych yn amau bod gweithwyr gofal yn cael eu hecsbloetio, os ydych yn weithiwr rhyngwladol ac eisiau cwestiynu eich amodau gwaith

⇒ Darparwyr gofal cymdeithasol sy'n cyflogi (neu sydd eisiau cyflogi) gweithwyr rhyngwladol

⇒ Chwythu'r chwiban

⇒ Rhagor o wybodaeth

Gellir cyrchu'r dudalen yma: https://www.llyw.cymru/caethwasiaeth-fodern-cham-drin-gweithwyr-ym-maes-gofal-cymdeithasol



## YR WYBODAETH DDIWEDDARAF YNGHYLCH TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL

Mae’r grŵp Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol yn parhau i gyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu ar draws y rhanbarth mewn perthynas â phobl hŷn a phlant a phobl ifanc, gan gyflwyno sesiynau a deunyddiau i grwpiau cymunedol, ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid a chlybiau chwaraeon, gyda ffocws ar godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a gwella dealltwriaeth o berthnasoedd iach, cydsyniad, a chefnogi unigolion i herio agweddau a chredoau afiach a misogynistaidd.



Maent yn y broses o ddatblygu ymgyrch a fydd yn cynnwys podlediad, i annog y rhai sy’n gweithio mewn cymunedau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan gynnwys bancio symudol, swyddfeydd post symudol a gwasanaethau llyfrgell, a gwasanaethau gofal cartref, i ddod yn llysgenhadon trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn sicrhau, lle mae cymunedau wedi colli eu gwasanaethau a’u hamwynderau, bod yna unigolion a fydd â’r sgiliau a’r hyder i ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## PANEL CYNGHORI GOROESWYR RHANBARTHOL

**Oeddech chi'n gwybod bod gennym Banel Goroeswyr Rhanbarthol sy’n cynnwys pobl sydd â phrofiad bywyd o gam-drin domestig?** Mae nifer y bobl sydd ar y panel yn parhau i gynyddu ac maent yn parhau i nodi meysydd gwaith allweddol gyda’r nod o’u blaenoriaethu a chyflawni yn eu cylch o fewn y misoedd nesaf.  Ar gyfer 2024-2025 bydd y panel yn canolbwyntio ar themâu fel achosion llys teulu a cham-drin ar ôl gwahanu.

Mae aelodau’r panel wedi ymgymryd â gwaith ac wedi gwneud nifer o argymhellion i fyrddau rhanbarthol fel y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, y Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol a Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Bydd y gwaith dros y misoedd nesaf yn canolbwyntio ar ddatblygu deunyddiau hyfforddi penodol ac offer codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â cham-drin domestig, yn ogystal â llywio ymgyrchoedd cyfathrebu rhanbarthol.

# YMGYRCH POSTERI CYDSYNIAD SIR GAERFYRDDIN

Mae Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin wedi datblygu ymgyrch posteri ynghylch cydsyniad. Mae hyn yn cynnwys nifer o bosteri Cymraeg a Saesneg y gellir eu rhannu o fewn eich sefydliadau. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **melanie@camau.org.uk**





## MODIWL HYFFORDDI NEWYDD I GODI YMWYBYDDIAETH O HUNANLADDIAD

Mae modiwl hyfforddi newydd i godi ymwybyddiaeth o hunanladdiad bellach ar gael i bob aelod o staff – o weithwyr rheng flaen sy'n wynebu'r cyhoedd i ystafell y bwrdd.

Mae'r modiwl yn datblygu dealltwriaeth o atal hunanladdiad ac yn darparu gwybodaeth am gefnogi. Datblygwyd y modiwl gan Raglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, Gweithrediaeth y GIG.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio yma: sshp.cymru@wales.nhs.uk


Modiwl Hyfforddiant Cyffredinol – Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad

ESR: 000 NHS Wales – Suicide Awareness

Mae modiwl hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunanladdiad newydd ar gael i bob aelod o staff, o weithwyr rheng flaen sy'n ymwneud â'r cyhoedd i ystafell y bwrdd. Mae'r modiwl yn darparu dealltwriaeth o atal hunanladdiad ac yn darparu gwybodaeth gymorth.

Datblygwyd y modiwl gan Raglen Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, Gweithrediaeth y GIG.

**I gael mynediad ar ESR:**

Gellir dod o hyd i'r modiwl yng nghatalog y cwrs neu drwy chwilio "suicide awareness"

**I gael mynediad ar Learning@Wales:**
Ar ôl mewngofnodi, chwiliwch am "Ymwybyddiaeth o hunanladdiad" yn y swyddogaeth chwilio.
Cysylltwch â'ch tîm dysgu a datblygu i gael allwedd cofrestru'r sefydliad.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm SSHP yn sshp.cymru@wales.nhs.uk

# Y GYMDEITHAS GENEDLAETHOL ER ATAL CREULONDEB I BLANT – GWEITHDAI 'BYDD YN GLUST, BYDD YN LLAIS'

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant yn credu bod gan bawb ran i'w chwarae wrth helpu i gadw plant yn ddiogel, o weithwyr siopau a staff caffis, i lyfrgellwyr, cynorthwywyr pyllau nofio a theithwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae eu hymgyrch 'Bydd yn Glust, Bydd yn Llais' yn annog ysgolion, busnesau a grwpiau cymunedol ledled Cymru i gymryd rhan mewn gweithdai rhad ac am ddim sy'n cynnig cyngor ar beth i'w wneud os ydych yn pryderu am ddiogelwch neu les plentyn, a phwy i gysylltu â nhw am gymorth.

Mae'r gweithdai'n cael eu cynnig wyneb yn wyneb ac ar-lein, ac yn rhedeg trwy gyfres o senarios bywyd go iawn, gan roi cyngor ymarferol ar sut i ymdrin â sefyllfaoedd heriol lle gallai plentyn fod mewn perygl.

Maent yn benderfynol o gyrraedd cynifer o bobl a chymunedau â phosibl, a byddent wrth eu boddau yn clywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynnal un o'u gweithdai 'Bydd yn Glust, Bydd yn Llais'.

I drefnu neu fynychu gweithdy, anfonwch neges e-bost i walescampaigns@nspcc.org.uk – maent yn gofyn bod o leiaf 10 o bobl ym mhob sesiwn wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, gall unrhyw un gofrestru ar gyfer eu hyfforddiant 10 munud ar-lein rhad ac am ddim drwy fynd i www.nspcc.org.uk/speakup




# EICH STRAEON

Rydym bob amser yn awyddus i hyrwyddo straeon ac enghreifftiau o'r gwaith rhagorol sy'n digwydd ar draws y rhanbarth, felly parhewch i anfon unrhyw newyddion neu wybodaeth yr hoffech i ni dynnu sylw atynt i cysur@pembrokeshire.gov.uk

# UPCOMING AWARENESS DAYS

Dewch o hyd i ddyddiadau'r diwrnodau ymwybyddiaeth sydd ar y gorwel ar gyfer eich dyddiaduron. Cofiwch ddilyn ein cyfryngau cymdeithasol i gael dolenni ac adnoddau sy'n cefnogi pob un o'r dyddiau hyn.

## Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 14 Gorffennaf | Diwrnod Cofio Cenedlaethol i Ddioddefwyr Trais ar Sail Anrhydedd |
| 24 Gorffennaf | The Big Listen – Diwrnod Ymwybyddiaeth y Samariaid |
| 30 Gorffennaf | Diwrnod y Byd yn erbyn Masnachu mewn Pobl |

## Awst

| | |
|---|---|
| 12 Awst | Diwrnod Rhyngwladol Ieuenctid |

## Medi

| | |
|---|---|
| 10 Medi | Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd |

# EIN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**FACEBOOK**

@CYSURCYMRU

**INSTAGRAM**

@CYSURCYMRU

**TWITTER**

@CYSURCYMRU
@CWMPASCYMRU

# CYSYLLTWCH Â NI

E-bost:

**cysur@pembrokeshire.gov.uk ar gyfer CYSUR**
**cwmpas@pembrokeshire.gov.uk ar gyfer CWMPAS**

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru • Mid and West Wales Safeguarding Board